

## LLOYD-OWEN, DAVID CHARLES (1843 - 1925), meddyg llygaid

**Enw:** David Charles Lloyd-owen  
**Dyddiad geni:** 1843  
**Dyddiad marw:** 1925  
**Priod:** Anna Lloyd-Owen (née Greene)  
**Rhiant:** Sophia Owen (née Jeffries)  
**Rhiant:** D. Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** meddyg llygaid  
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 5 Medi 1843, mab y Parch D. Owen, gynt o Darowen, Sir Drefaldwyn, a'i wraig Sophia (Jeffries), Bridgnorth. Er na aned mohono yng Nghymru (eithr yng nghanolbarth Lloegr), yr oedd y Dr. Lloyd-Owen yn Gymro o waed a hawliai ei fod yn disgyn o hen deulu Cymreig **Mathafarn**, Sir Drefaldwyn. Cofrestrwyd ach y teulu ganddo yn y College of Heraldry, Llundain; gweler hefyd **NLW MS 6016F**. Cafodd ei addysg feddygol yn y General Hospital, Birmingham, ac ym Mharis. Heblaw ennill y tystysgrifau meddygol arferol pasiodd yn M.D. (Birmingham). Dechreuodd wasnaethu fel meddyg yn y Birmingham Eye Hospital tua'r flwyddyn 1865, a chyn bo hir daeth yn un o arbenigwyr mwyaf adnabyddus Lloegr ac yn aelod o wahanol sefydliadau a chymdeithasau meddygol, yn enwedig rhai yn gysylltiol â thriniaeth y llygad. Cyhoeddodd lyfrau (e.e. *The Function of Vision*, a *Pain in Eye Diseases*), erthyglau, a nodiadau ar faterion yn ei faes arbennig ei hun. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes broffesiynol yn Birmingham.

Yr oedd ei gyswllt â Chymru yn glos iawn. Treuliodd lawer o'i oes yng Nghymru - yn enwedig yn Aberystwyth a Harlech. Yr oedd yn aelod o amryw gymdeithasau Cymreig (e.e. y 'Powysland Club'; cyfrannodd erthyglau i *Montgomeryshire Collections*, cylchgrawn y gymdeithas honno), a gohebai'n gyson â llu o Gymry amlwg ei gyfnod, yn enwedig y rheini a gymerai ddiddordeb yn ei astudiaethau arbennig ef ei hun, sef hanes cyffredinol a theuluol sir Drefaldwyn. Y mae'r llawysgrifau (**NLW MS 5986-6023** yn awr) a ysgrifennodd neu a gasglodd yn ddangoseg i'w ddiddordebau Cymreig. Yn eu plith y mae copïau o gofrestri eglwysi a wnaethpwyd iddo gan **Richard Bennett**, a chopiau ysgrifenedig o dri llyfr gan ei hendaidd, **John Owen** (1757 - 1829).

Priododd Anna, merch John Greene, M.R.C.S., Muxton, Sir Amwythig. Bu farw Ddydd Nadolig, 1925, yn ei gartref, Bron-y-graig, Harlech.

### Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol

gwybodaeth gan ei ferch, Mrs. L. Lloyd, Bron-y-graig, Harlech

*Who's who?*, 1924

### Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: D. C. Lloyd-Owen Manuscripts

Wikidata: Q20738129

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yrannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). LLOYD-OWEN, DAVID CHARLES (1843 - 1925), meddyg llygaid. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-CHA-1843>

Yrannu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddi  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government